



Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

2011 mccc 4

RHAN 1

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

PENNOD 2

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

8 Pennaeth gwasanaethau democrataidd

- (1) Rhaid i awdurdod lleol—
 - (a) dynodi un o'i swyddogion i gyflawni'r swyddogaethau yn adran 9 ("swyddogaethau gwasanaethau democrataidd");
 - (b) darparu i'r swyddog hwnnw y staff, y llety a'r adnoddau eraill sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon i ganiatáu i swyddogaethau'r swyddog hwnnw gael eu cyflawni.
- (2) Caiff pennaeth gwasanaethau democrataidd drefnu i swyddogaethau gwasanaethau democrataidd gael eu cyflawni gan staff a ddarperir o dan yr adran hon.
- (3) Mae swyddog a ddynodir gan awdurdod lleol o dan yr adran hon i'w alw'n bennaeth gwasanaethau democrataidd.
- (4) Ni chaiff awdurdod lleol ddynodi unrhyw un neu ragor o'r canlynol o dan yr adran hon—
 - (a) pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod a ddynodir o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
 - (b) swyddog monitro'r awdurdod a ddynodir o dan adran 5 o'r Ddeddf honno;
 - (c) prif swyddog cyllid yr awdurdod, o fewn ystyr yr adran honno.